

Cylchgrawn
dwyieithog
arlein



Parallel.cymru

Bilingual
online
magazine



THE WELSH GIFT SHOP

Siop Anrhegion Cymreig Ar-lein Becca Hemmings: Sut Dyn Ni'n Cefnogi'r Iaith / The Welsh Gift Shop Online's Becca Hemmings: How We Support The Language

Wedi'i gyhoeddi ar 05/09/2018 — Yn Anffurfiol/Cyfweliadau

Mae Becca o **Siop Anrhegion Cymreig** yn cefnogi'r iaith, ond dydy hi ddim yn rhugl. Sut ydy hi ddarparu gwasanaethau i bobl sy'n dewis i ddefnyddio'r iaith? Gadewch i ni ddarganfod...

The **Welsh Gift Shop's** Becca supports the language, but isn't fluent. How does she provide services to those who choose to use Welsh? Let's find out...

Becca, ti'n rhedeg siop anrhegion Cymreig ar-lein, Welshgiftshop.com. Pam gwnest ti benderfynu i weithio am dy hun?

Roeddwn wedi gweithio mewn e-fasnach am nifer o flynyddoedd; yn creu a rhedeg siopau anrhegion am gwmnïau eraill, ond fy mreuddwyd oedd i redeg siop anrhegion fy hun.

Un diwrnod wrth chwilio am swyddi, awgrymodd fy ffrind mai nawr oedd yr amser perffaith i 'ddilyn fy mreuddwyd'- ond roedd angen syniad arnaf. Ar unwaith, daeth 'Cymru' i'r meddwl gan fy mod yn falch iawn i fod yn Gymraeg ac yn caru ein traddodiadau a chreffftwaith. Yna cafodd Siop Anrhegion Cymru ei eni!

Ar ôl ychydig o flynyddoedd o weithio ochr yn ochr gyda'r swydd amser llawn arall, roeddwn i'n gallu cymryd y naid ac ymrwymo fy holl amser i'r siop. Nid wyf erioed wedi edrych yn ôl!

Becca, you run an online Welsh gift shop, Welshgiftshop.com. Why did you decide to work for yourself?

I was working in e-marketing for a number of years, creating and running gift shops for other companies, but it was my dream to run my own gift shop.

One day while searching for jobs, my friend suggested that now was the perfect time to 'follow my dream'- but I needed an idea. At once, 'Wales' came to mind because I'm very proud to be Welsh and I love its traditions and crafts. And that's how Welsh Gift Shop was born!

After a few years of working side by side with my full time job, I was able to take the jump and commit all my time to the shop. I've never looked back!

Ac wyt ti'n gwneud y stoc dy hunan?

Rydym yn dod o hyd i anrhegion o bob man o Gymru, achos un o'n hamcanion yw cefnogi gwneuthurwyr a chrefftwaith Cymreig. Mae rhai o'n stoc unigryw wedi cael ei dylunio gan fy hun, dyma fy hoff rhan o'm gwaith.

Mae fy nheulu hefyd yn dod i fyny a syniadau am anrhegion (daeth fy mam i fyny ag anrheg sydd ein gwerthwr orau- gwydryn whisgi 'lechy Da') ac rwyf hefyd wedi recriwtio rhai o'm ffrindiau ysgol i ddylunio anrhegion i ni- mae'r 'bag Cymraes am byth' yn cael ei wneud gan yr artist, Nicky Barter, yng Nghaerdydd.

And do you make the stock yourself?

We find gifts from all over Wales, because one of our aims is to support Welsh makers and workmanship. Some of the unique stock is designed by myself, which is the favourite part of my work. My family also come up with ideas and gifts (my Mam came with our best-selling gift- 'Good Health' whiskey glasses) and I've recruited some of my school friends to design presents for us- the 'Welshwoman forever' bag was done by the artist Nicky Barter in Cardiff.

Oes cefndir mewn crefftau gyda ti?

Rwy'n caru arlunio a crefft- gwnes i astudio nhw yn yr ysgol. Mae'n ardderchog cael swydd lle gallaf fod yn greadigol.

Do you have a background in crafts?

I love arts and crafts- I studied them in school. It's excellent to have a job where I can be creative.

O ble mae pobl prynu'ch eitemau - ai hi'n bennaf i bobl yng Nghymru neu a ydych chi'n gwerthu i lawer o bobl ledled y Deyrnas Unedig a'r byd?

Rydym yn bennaf yn gwerthu i bobl yn y UK ond rydym hefyd wedi anfon archebion ar draws y byd- America ac Awstralia yn ail ac yn drydydd- rydym hyd yn oed wedi postio sanau Gwarchodlu Cymreig i Hong Kong. Mae bobl o Gymru i'w gael on mhobman!

From where do people buy your items- is it from mainly in Wales or do you sell to lots of people throughout the United Kingdom and world?

We mainly sell to people in the UK but we sometimes send orders across the world- America and Australia is the third most common destination- but we have posted Welsh Guards socks to Hong Kong. People from Wales can be found everywhere!

A dw i'n deall mod ti ddim yn siarad lot o Gymraeg, felly sut wyt ti'n delio â'r cwsmeriaid sy'n moyn ddefnyddio'r iaith?

Yn anffodus mae fy Nghymraeg yn ddrwg iawn. Fe ges i gradd B mewn Cymraeg GCSE (hanner bywyd yn ôl!) - ond nid wyf yn teimlo'n hyderus iawn yn ei siarad. Yn ffodus Cymraeg yw iaeth cyntaf fy mam, felly mae hi yn fy helpu i gynnig cefnogaeth i gwsmeriaid yn Gymraeg ac mae'n fy helpu gyda'r cyfweiliad hwn! (Diolch o galon Mam!)

Rhan wych arall o'm swydd yw fy mod yn dysgu mwy a mwy o Gymraeg bob dydd.

And I understand that you don't speak a lot of Welsh, so how do you deal with customers who are using the language?

Unfortunately my Welsh is very poor. I had a grade B in Welsh GCSE (half a lifetime ago!) but I don't feel very confident with speaking. Fortunately Welsh is my Mam's first language, so she helps to give support to Welsh speaking customers and she helped with this interview! (Thanks very much Mam!)

Another great part of my job is that I learn more and more Welsh every day.

Pa gyngor fydddi'n rhoi i fusnesau a gwasanaethau eraill sydd am wella eu darpariaeth Gymraeg?

Mae'r iaith Gymraeg mor brydferth ac mae'n bwysig ei gadw'n fyw. Byddwn yn dweud cyflogwch siaradwyr Cymraeg (ond peidiwch â chymryd fy Mam i ffwrdd o'r siop!)

What advice would you give to other businesses and services who are improving their Welsh language services?

The Welsh language is very beautiful and it is important to keep it alive. I would say that you should employ Welsh speaking staff (but don't take my Mam away from the shop!)

Nawr dy fod di yn fam llawn amser yn ogystal â rhedeg y busnes, sut wyt ti'n cydbwyso gwaith, cyfrifoldebau gofalu a bywyd cartref?

Mae wedi bod yn anodd cydbwyso gwaith a gofalu am fabi bach, ond mewn rhannau cyfartal yn braf! Rwy'n ffodus bod gennyf swydd lle gallaf hefyd fod gyda fy merch fach, er, wrth gwrs, bu'n anodd iawn ar adegau hefyd. Roedd fy ngŵr yn gallu rhannu seibiant tadolaeth a mi, cynllun newydd gwych, roedd hyn yn golygu ein bod ni'n mwynhau ychydig fisoedd gyda'i gilydd fel teulu newydd ac roedd ef yn help fawr. Hwn hefyd oedd y flwyddyn gyntaf rwyf wedi cyflogi pobl i helpu gyda'r pecio; tîm gŵr a gwraig yw Iain a Jackie - mae nhw yn wych, ac wedi bod yn amhrisiadwy ac yn gwneud gwaith da iawn.

Now that you are a full-time Mum in addition to running the business, how do you balance work, caring responsibilities and home life?

It has been hard to balance work and looking after a baby, but in equal parts wonderful! I am lucky that I have a job where I can also be with my baby daughter, though of course it has been very difficult at times too. My husband was able to take shared paternity leave, a brilliant new scheme, which meant that we enjoyed a few months together as a new family and he could help me with my work. This was also the first year I have employed people to help with the packing too; husband and wife team Iain and Jackie are wonderful and have been life savers and do a fantastic job.

Pa awgrymiadau gyda ti ar gyfer pobl eraill sydd â chyfrifoldebau gofal sydd eisiau gweithio'n annibynnol?

Y tric i mi yw paratoi, felly erbyn hyn mae Arwen fach yn cymryd dwy gwsg y dydd, rwy'n ceisio gweithio cymaint â phosib yn y 2-3 awr hynny. Fy ngri flaenoriaeth yw cymorth cwsmeriaid bob amser, cyhyd â gallaf gadw fy nghwsmeriaid yn hapus rwyf i'n hapus (gan ddefnyddio fy ffôn symudol i ateb negeseuon e-bost pan na allaf fod o flaen fy laptop mae hwn wedi bod yn amhrisiadwy!) Nawr bod ei hamserlen wedi dod yn fwy rhagweladwy, mae fy dydd hefyd yn, felly ym mis Awst rydw i wedi bod

What tips do you have for other people with caring responsibilities that want to work independently?

The trick for me is preparation, so now she has two naps a day, I try and work as much as possible in those 2-3 hours. My priority is always customer support, so as long as I can keep my customers happy I am happy (using my mobile phone to answer emails when I can't be in front of my laptop has been invaluable) Now that her schedule has been more predictable, mine is too, so throughout August I have been sourcing lots of lovely gifts in time for

yn dod o hyd i lawer o anrhegion hyfryd mewn pryd ar gyfer y Nadolig!

Christmas!

Un peth y byddwn i'n ei ddweud sydd yn bwysig ac i unrhyw un â chyfrifoldebau gofalu fyddai sicrhau eich bod yn gofalu amdanoch chi hefyd. Mae'n debyg i'r rheol masg ocsigen ar awyrennau - gwnewch yn siŵr fod eich masg eich hun arno gyntaf wedyn gallwch chi helpu eraill. Byddwn yn cynghori rhoi'r awtomatymponder ymlaen i roi gwybod i bobl y gallech gymryd ychydig yn hirach na'r arfer i ymateb i negeseuon e-bost yn ystod cyfnodau brysur, wedyn mae pobl yn deall. Cymerwch deithiau cerdded ag ysbaid. Mwynhewch yr eiliadau gwerthfawr ond derbyniwch y bydd, weithiau, yn anodd iawn, mae bob amser yn werth ef.

One thing I would tell my past self and anyone with caring responsibilities would be to make sure you are looking after yourself as well. It is like the oxygen mask rule on planes - make sure you have your own mask on so you can then help others. I'd advise putting the autoresponder on to let people know you might take a little longer than usual to respond to emails during busy periods, people do understand. Take regular walks and breaks. Enjoy the precious moments but accept that though it will sometimes be really hard, it is always worth it!

Hyfryd, mae'n wych gweld pobl yn ymdrechu i gefnogi'r wlad a'r iaith. Pob lwc gyda'r busnes a dysgu Cymraeg!

Diolch o galon a diolch yn fawr am y gwahodd i siarad yma.

Lovely, it's great to see people making an effort to support the country's language. Good luck with the business and learning Welsh!

Thanks very much for the invite to talk here.



“

Mae'r iaith Gymraeg mor brydferth ac mae'n
bwysig ei gadw'n fyw.

welshgiftshop.com / [Twitter WelshGift](https://twitter.com/WelshGift) / [Instagram welshgiftshop](https://www.instagram.com/welshgiftshop)